LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cofnodion Sesiwn Agored

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

28 Gorffennaf 2023

Presennol:

Aelodau:

Ashok Ahir (Llywydd)	Gronw Percy (Trysorydd)
Andrew Evans (Is-lywydd)	David Hay
Lee Yale-Helms	Lydia Rumsey
Janet Wademan	Carl Williams
Quentin Howard	Hannah Lindsay
Susan Davies	Gwenllian Lansdown Davies
Elaine Treharne	Mike Cavanagh

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol

Hefyd yn Bresennol:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Emyr Evans	Pennaeth Dros-dros Adran Gyllid

Cofnodion:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethu a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Sylwedyddion:

Paul Kindred	Llywodraeth Cymru

1.1 Gair o groeso gan y Cadeirydd, sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan ddiolch i'r aelodau am gyfarfod buddiol y diwrnod blaenorol. Yn dilyn y gweithdy ar effeithiolrwydd y Bwrdd, bydd Andrew Evans, a hwylusodd y drafodaeth, yn cylchredeg pwyntiau gweithredu i'r aelodau a'r Clerc. Gan nad oedd amser i drafod yr adroddiad ar sefyllfa gyllidol y Llyfrgell brynhawn ddydd Iau, bydd hwn yn cael ei drafod fel yr eitem gyntaf ar agenda heddiw.

Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Anwen Jones, Rhian Gibson a David Michael.

Sefyllfa gyllidol y Llyfrgell

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr oedd yn amlygu'r heriau cynllunio ariannol oedd yn wynebu'r Llyfrgell yn dilyn penderfyniad y Bwrdd yn Ionawr 2023 i gomisiynu CIPFA i adolygu cydymffurfiaeth y Llyfrgell â Chod Rheoli Ariannol CIPFA. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi cael effaith dwys ar allu'r Llyfrgell i gynllunio ar gyfer, a gweithredu'r mesurau torri costau sydd eu hangen i gau'r bwlch yn y gyllideb yn y tymor byr a'r tymor hir.

Roedd absenoldeb Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid o'r gwaith am gyfnod estynedig yn ychwanegu at yr heriau, gan mai hwy fyddai wedi rhoi arweiniad a chyngor ar faterion ariannol ac ar fesurau torri costau'n arbennig. O ganlyniad, mae'r capasiti a'r arbenigedd sydd ei angen o fewn y Llyfrgell i weithredu argymhellion adroddiadau CIPFA ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Serch hynny, cytunwyd bod rhaid cychwyn rhoi trefniadau mewn lle i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd.

Oherwydd natur strategol nifer o'r heriau a amlygwyd gan CIPFA, yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y Llyfrgell, cytunwyd i sefydlu grŵp tasg a gorffen i fynd i'r afael â hwy. Cytunwyd y dylai'r grŵp gynnwys cyfuniad o ymddiriedolwr ac uwch reolwyr. Bydd y grŵp yn rhoi ystyriaeth fanwl i sefyllfa gyllidol y Llyfrgell, gan gynllunio a pharatoi ar gyfer gostyngiad sylweddol yn ein grant cymorth, i sicrhau dyfodol cyllidol cynaliadwy.

Cytunwyd yn ogystal i sefydlu grŵp ar wahân i ystyried canfyddiadau CIPFA mewn perthynas â'r ffwythiant cyllid o fewn y Llyfrgell. Bydd y grŵp hwn hefyd yn cynnwys cyfuniad o ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr, ac yn cael ei gadeirio gan y Trysorydd.

Nododd David Hay ei barodrwydd i ymuno â'r grŵp fydd yn ystyried y ffwythiant cyllid o fewn y Llyfrgell. Dylai unrhyw ymddiriedolwr arall sydd â diddordeb i ymuno ag un o'r grwpiau gysylltu gyda'r Llywydd a Chlerc y Bwrdd yn fuan.

Bydd cylchoedd gorchwyl y ddau grŵp yn cael eu datblygu yn ystod mis Awst, gyda'r bwriad i gyfarfod yn fisol o fis Medi ymlaen. Bydd adroddiadau cynnydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd bod angen i'r Bwrdd fod yn hollol glir o ran ymrwymiadau'r cronfeydd preifat - faint sydd wedi ei ymrwymo'n barod a faint sydd ar ôl i'w fuddsoddi yng ngwaith y Llyfrgell, ac o bosib, cyllido cynlluniau i hwyluso lleihau costau gweithredol y Llyfrgell.

Atgoffwyd yr aelodau bod angen sicrhau cadw o fewn y terfynau sydd wedi eu gosod yn y Polisi Cronfeydd Preifat, sef trothwy isaf o £10m a throthwy uchaf o £15m.

Awgrymodd yr aelodau yr hoffent weld borden flaen yn cael ei chyflwyno i gyfarfodydd y Bwrdd, fyddai'n ymhelaethu ar y wybodaeth sydd eisoes yn cael ei gyflwyno yn y dangosyddion cyflawni presennol, ac yn cynnwys gwybodaeth am draweffaith digwyddiadau, adborth a niferoedd yn mynychu ac ati. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'n ystyried hyn, ond bod adnoddau ar gyfer ei gyflawni yn brin.

Nodwyd bod yr archwilwyr yn parhau i archwilio'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n annhebygol y byddant yn barod i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w harwyddo ym mis Medi.

Cyflwyniad gan Fourth Street – Tom Agar a Timothy Ambrose
NLW Impact Study: Stage 2 Report: Impact Framework

Croesawyd Tom Agar a Timothy Ambrose i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Mae'r adroddiad yma'n dilyn ymlaen o'r Astudiaeth Gwaelodlin Cam 1 oedd yn darparu asesiad manwl o weithgaredd presennol y Llyfrgell. Mae'r adroddiad yma (Cam 2) yn darparu Fframwaith Traweffaith ddylai gael ei esblygu i hysbysu a galluogi'r Llyfrgell i dyfu ei thraweffaith ac ymgysylltu gyda'i chynulleidfaoedd.

Mae'r ffocws ar 3 brif amcan, sef

- Datblygu'r Gynulleidfa
- Traweffaith Economaidd a Chymdeithasol
- Twristiaeth ac Economeg yr Ymwelydd

Atgoffwyd yr aelodau bod adroddiadau Fourth Street yn deillio o argymhelliad yn yr Adolygiad Teilwredig y dylai'r Llyfrgell roi ystyriaeth i'w thraweffaith economaidd a medru dangos traweffaith ei gwaith a dangos gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Nododd Tom Agar fod ganddo fas data cynhwysfawr fyddai'n rhoi mwy o wybodaeth i'r Llyfrgell fedru blaenoriaethu'r allbynnau sydd i'w gweld yn yr adroddiad, ac mi fyddai hyn yn ddefnyddiol i fedru gweld y bylchau ble nad yw'r Llyfrgell yn perfformio mor dda ag y medrai. Mae hyn ar ffurf taenlen fframwaith traweffaith sy'n medru cael ei ddiweddaru'n gyson.

Erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi mi fydd Rhian Gibson wedi drafftio cynllun gweithredu yn deillio o adroddiad Fourth Street i'r aelodau ei ystyried.

Yn dilyn y cyfarfod bydd adroddiad diweddaraf Fourth Street yn cael ei rannu gyda'r aelodau.

1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganodd aelodau'r Tîm Gweithredol, Clerc y Bwrdd a'r Rheolwr Adnoddau Dynol fuddiant yn y drafodaeth ar y cynllun pensiwn fel aelodau gweithredol o'r cynllun hwnnw.

1.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2023 a thrafodaeth ar faterion yn codi

Angen cywiriad – nid yw Lee Yale-Helms bellach yn Drysorydd.

Dyfeisiau i aelodau'r Bwrdd – cadarnhaodd Illtud Daniel yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd na fydd angen i Ymddiriedolwyr dderbyn dyfeisiau gan y Llyfrgell, ond mi fydd angen i bob un gwblhau ffurflen hunan ardystio bod ei dyfais bersonol yn cydymffurfio â gofynion Cyber Essentials +. Os na fydd y ddyfais yn cydymffurfio yna bydd rhaid cael trafodaeth bellach ar y ffordd ymlaen.

Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol – mae hwn wedi ei ddiwygio i gynnwys cymal ynglŷn â sut mae penderfyniadau'n cael eu cymeryd tu allan i gyfarfodydd arferol y Bwrdd. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant pan fydd dyddiad wedi ei ail-drefnu, ac yna i'r Bwrdd.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd

Adroddodd y Prif Weithredwr bod y Prif Weinidog, Mark Drakeford, wedi ymweld â'r Llyfrgell ddydd Llun, pryd roedd yn trosglwyddo peth o'i archif bersonol i'r Llyfrgell. Cafwyd sgwrs fuddiol a chyfle i amlygu gwaith y Llyfrgell.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, David T C Davies yn ymweld â'r Llyfrgell ar 3 Awst ar gyfer trafodaeth bwrdd crwn ar ddyfodol yr iaith Gymraeg, ac mae wedi gofyn am sgwrs gyda'r Tîm Gweithredol fel rhan o'r ymweliad. Mae hyn yn deillio o'i ymweliad â stondin y Llyfrgell ar faes Eisteddfod yr Urdd. Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, mi fydd y cyfarfod yn gyfan gwbl trwy'r iaith Gymraeg.

Mae Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd wedi gofyn am gael cynnal ei gyfarfod yn y Llyfrgell ym mis Hydref, ac wedi gofyn i gyfarfod y Tîm Gweithredol i gael gwell dealltwriaeth o waith y Llyfrgell. Gofynnodd yr aelodau a ddylai rhai o'r Ymddiriedolwyr fod yn bresennol ar y diwrnod, a bydd y Prif Weithredwr yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â hyn.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Strategaeth Codi Arian

Croesawyd Rich Roberts i'r cyfarfod i gyflwyno'r strategaeth ar gyfer ei chymeradwyo, oedd wedi ei chyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

Mae'r strategaeth yn gosod allan 5 amcan strategol ar gyfer 2023-2026

1. Creu cymuned byd eang â'r gallu i gyfrannu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru
2. Sefydlu rhaglen gyfrannu unigol, wedi ei gwneud fyny o amryw ffynonellau incwm
3. Sefydlu rhaglen prif roddwyr sy'n canolbwyntio ar y rhoddwr sy'n cwrdd ag anghenion unigolion o werth uchel net
4. Sefydlu cynllun cymynrodd sy'n gosod sylfaen ar gyfer ffrwd incwm dibynadwy
5. Sefydlu rhaglen grantiau llwyddiannus a chynaliadwy

Nododd Elaine Treharne y byddai'n hapus i roi cymorth mewn unrhyw ffordd i hwyluso creu cysylltiadau yn yr Unol Daleithiau, gan ei bod hi'n ymwneud â chodi arian yn barod yn California. Nododd Gwenllllian Lansdown Davies ei bod hithau'n barod i roi cymorth gyda cheisiadau grant ac ati.

Gofynnwyd â oedd polisi yn tanategu'r strategaeth, ac addawodd Rich Roberts y byddai'n cyflwyno polisi i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Medi. Nododd yr aelodau hefyd na fyddai modd cymeradwyo'r strategaeth hyd nes bod mesurau llwyddiant a gwaelodlin wedi eu cynnwys. Cytunwyd i gymeradwyo'r strategaeth mewn egwyddor, yn amodol ar gynnwys y wybodaeth ychwanegol yng nghyfarfod mis Medi, ble bydd modd cymeradwyo'n llawn.

Nododd y Prif Weithredwr y byddai swyddi newydd yn cael eu rhewi yn y dyfodol, ond bod y Trysorydd yn awyddus i'r swydd Swyddog Grantiau, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, gael ei chymeradwyo a'i hysbysebu, gan fod angen cymorth ar Rich Roberts i'w gynorthwyo i gyflawni'r strategaeth. Bydd y swydd benodol yma'n cael ei hariannu o arian preifat.

Nodwyd bod is grŵp o'r Bwrdd wedi ei greu ar gyfer edrych ar godi arian a chodi incwm - yr aelodau yw Andrew Evans (Is Lywydd), Rhian Gibson a Rich Roberts.

3.2 Cais Cronfeydd Preifat

Cyflwynwyd y cais yma i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 27 Mehefin a chytunwyd i'w gyflwyno i'r Bwrdd ei chymeradwyo. Pwrpas y cais yw cael cwmni i edrych ar ddatblygu tiroedd y Llyfrgell i ddenu mwy o bobl i ymweld â'r safle, ac mae'r cais yma'n dilyn ymlaen o'r adroddiad a drafftiwyd gan Mather & Co. Roedd y Bwrdd yn hapus i gytuno i'r cais ac i ddarparu swm o arian o'r cronfeydd preifat i gefnogi'r cais [£30k yw'r swm sydd wedi ei ofyn amdano yn y cais]. Nodwyd bod ymchwil a chynllun ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar gael sydd yn eistedd ochr yn ochr â'r cynllun yma, a gofynnwyd i Rich Roberts ddrafftio

papur ar ymgysylltu â chynulleidfaoedd i'w gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi iddynt gael syniad o'r gwaith sydd ar y gweill.

3.3 Calendar y Bwrdd 2024

Cadarnhawyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gyfer 2024.

3. 4 Trawsnewid yr Hafod

Mae prinder gofod storio yn y Llyfrgell wedi bod yn bryder ers cryn amser, ac mae wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg gorfforaethol fel risg uchel. Mae'n cael ei drafod yn rheolaidd yn y Panel Adeiladau, ac yn 2021 mynegwyd pryder yn ystod yr achrediad archifau ynglŷn â'r prinder gofod.

Mae gan y cynllun sydd wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd i ddatblygu ardal yr Hafod (neu'r Atriwm), botensial i ychwanegu 10 mlynedd o gapasiti storio, ac mae'r Llyfrgell wedi derbyn £1.5m o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru tuag at ddatrysiad i'r prinder gofod storio. Cost y cynllun fyddai tua £2.7M a disgwylir i weddill y cynllun, tua £1.2m, gael ei ariannu gan arian preifat.

Mae Is-grŵp Storio wedi ei sefydlu sy'n cael ei gadeirio gan Andrew Evans, gyda Lydia Rumsey a Quentin Howard yn aelodau ynghyd ac aelodau staff perthnasol. Mae'r Is-grŵp yn gefnogol iawn o'r datblygiad arfaethedig yma. Nododd Mike Cavanagh, Cadeirydd y Panel Adeiladau, bod aelodau'r panel hefyd yn cefnogi'r cynllun yma.

Roedd yr aelodau'n unfrydol yn eu cefnogaeth i ddatblygu ardal yr Hafod, a bydd Mark Stevens, Pennaeth Ystadau, yn datblygu'r cynllun ymhellach trwy benodi Tîm Cynllunio a chynnal sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru, Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion, CADW, a Rheolaeth Adeiladau.

3.5 Cynllun Pensiwn – diweddariad

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyfredol gan Lee Yale-Helms, Cadeirydd Bwrdd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell.

Diolchodd i Emyr Evans am ei gymorth gyda'r gwaith o drosglwyddo gweinyddiaeth y cynllun i Willis Towers Watson.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda chyfreithwyr y cynllun ar 22 Mehefin, a chyngor Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn oedd y dylai ef a Gronw Percy gydweithio i ailddrafftio'r papur ymgynghori ar symud o'r cynllun buddion diffiniedig presennol i gynllun cyfraniadau

diffiniedig, neu i gadw'r cynllun presennol. Byddai'r cyfnod ymgynghori gyda staff yn 60 diwrnod; yn dilyn hynny, byddai canlyniad yr ymgynghori'n cael ei rannu gyda'r Bwrdd Cynllun Pensiwn a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Cytunodd yr aelodau i gais Cadeirydd y Bwrdd Cynllun Pensiwn a rhoddwyd awdurdod dirprwyedig iddo ef a'r Trysorydd i gydweithio ar ddiwygio'r ddogfen ymgynghori.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyfrifon Rheoli Mai 2023

Cyflwynodd Emyr Evans y cyfrifon rheoli am fis Mai 2023, oedd hefyd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 27 Mehefin.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr aelodau ar y cyfrifon.

4.1.2 Cyllideb 2026/2026

Cyflwynwyd cyllideb debygol ar gyfer 2025/2026 gan Emyr Evans.

Adroddwyd yn y cyfarfod chwarterol gyda Llywodraeth Cymru y bydd GiA yn dychwelyd i'r waelodlin o £10,762,000 yn 2025/2026, fydd yn gadael diffyg gweithredol o tua £3m. Bydd unrhyw arian ychwanegol gan y Llywodraeth hefyd yn dod i ben yn 2025/2026, a bydd disgwyl i'r holl grantiau gael eu gwario, neu bydd rhaid eu trosglwyddo'n ôl i Lywodraeth Cymru. Bydd angen felly edrych yn fanwl ar y cynllun strategol a beth mae modd ei wireddu, gan y bydd pwysau cynyddol wrth symud ymlaen.

Nododd un aelod bod presenoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn medru rhwystro trafodaeth agored ar faterion cyllidol, gan ofyn a oedd yn arferol iddynt fod yn bresennol, ac a ddylent ddatgan diddordeb mewn trafodaethau cyllidol.
Mewn ymateb, nodwyd bod y Llyfrgell wedi derbyn llythyr, DAO 02/19, gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus yng Ngorffennaf 2019, oedd yn nodi *bod y gofyniad ar noddwyr i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd wedi ei ddileu, ond bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i fynychu cyfarfodydd Bwrdd os byddant am roi cyngor neu godi pryderon am unrhyw fater. Felly dylid sicrhau bod y noddwr yn cael copïau o agendâu a phapurau mewn da bryd.*

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynwyd y gofrestr risg corfforaethol gan y Prif Weithredwr, gan nodi bod 5 risg newydd wedi eu hychwanegu. Trafodwyd y gofrestr gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 4 Gorffennaf, pryd roedd 4 risg newydd wedi eu hychwanegu, oedd yn deillio o drafodaethau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 27 Mehefin.

- *Absence of key finance personnel* - bydd y Prif Weithredwr, Trysorydd ag Emyr Evans yn ystyried y mesurau lliniaru i gael cymorth i'r Adran Gyllid yn y tymor byr; cytunwyd bod hwn bellach yn ffaith, nid risg, felly dylid ystyried ag oes angen hwn ar y gofrestr
- *Pension Scheme administration* – ers i'r aelod staff oedd yn gweinyddu'r cynllun pensiwn adael y Llyfrgell, mae gweinyddiaeth y cynllun pensiwn wedi ei drosglwyddo i Willis Towers Watson- peryg hyn yw arafwch i staff yn cael ymateb i'w ymholiadau ynglŷn â'u pensiynau.
- *Engagement with Welsh Government* – tan fis Mehefin eleni, nid oedd cyfarfod chwarterol wedi ei gynnal gyda Llywodraeth Cymru ers canol 2022. Bydd angen ymgysylltu gwell gyda Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen i'r Llyfrgell fedru mynegi pryderon ynglŷn â gostyngiad yn ei chyllid. Bydd ymweliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol â'r Llyfrgell ym mis Hydref yn gyfle arall i fynegi pryderon ynglŷn â thoriadau cyllid a'r oblygiadau o wneud hynny.
- *Auditing of the annual accounts* – mae'r arafwch o ran archwilio'r cyfrifon blynyddol yn parhau, ac mae'n annhebygol y byddant yn barod i'w cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi
- *Workplace health and safety* – ychwanegwyd y risg yma yn dilyn y cais am iawndal sydd wedi ei dderbyn gan gyn aelod staff; awgrymodd yr aelodau y dylid dileu'r risg yma, ac ychwanegu'r wybodaeth i'r risg *Failure to comply with statutory requirements*, a chodi sgôr y risg hynny

Roedd yr aelodau o'r farn bod gormod o risgiau ar y gofrestr erbyn hyn, ac y dylid rhesymoli'r gofrestr a lleihau'r nifer o risgiau. Gan fod y Llyfrgell yn aros i dderbyn yr archwiliad rheoli risg gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fuan, bydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ystyried yr argymhellion ac yn gweithredu ar unrhyw beth sydd ei angen, gan gynnwys diwygio'r gofrestr risg, yn dilyn hynny.

Cofrestr Gwrth Dwyll – cytunwyd y dylid gofyn i Grant Vernon, Gwasanaeth Archwilio Mewnol, am gyngor pellach ynglŷn â hyn.

Adran 5: Adroddiadau gan y Pwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 18.04.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Gronw Percy. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau.

5.2 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd 25.04.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Janet Wademan. Nodwyd bod yr adroddiad diwygiedig ar farn Pennaeth Archwilio Mewnol ar fin cael ei gyhoeddi, ac oherwydd yr oedi yn archwilio'r cyfrifon blynyddol mae'n annhebygol y byddwn yn cynnal cyfarfod ychwanegol o'r pwyllgor sydd wedi ei glustnodi ar gyfer mis Medi. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau.

5.3 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd 16.05.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Ashok Ahir. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

6.1 Apwyntio Ymddiriedolwyr – diweddariad

Cafwyd diweddariad ar y broses gan Paul Kindred, Llywodraeth Cymru.

Roedd y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau ar 24 Gorffennaf, a digon o geisiadau wedi dod i law i fedru bwrw ymlaen gyda'r broses penodi. Cynhelir y broses i fynd trwy'r ceisiadau ar 1 Awst, ac yn dilyn hynny, bydd cyngor yn cael ei roi i'r Dirprwy Weinidog, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal rhwng 6 – 8 Medi.

6.2 Cymorth aelodau'r Bwrdd

Nododd y Cadeirydd y bydd yn dosbarthu holiadur byr i'r aelodau yn fuan fydd yn gofyn iddynt nodi eu meysydd diddordeb yng ngwaith y Llyfrgell, fydd yn sail i'w ddefnyddio ar gyfer cefnogaeth mewn gweithgareddau i gefnogi'r sefydliad.

Cyfarfod nesaf:

Dydd Gwener, 29 Medi am 10.00 yn Ystafell y Cyngor

PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI O'R CYFARFOD

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwyliedig
	Rhannu pwyntiau gweithredu yn deillio o weithdy effeithiolrwydd y Bwrdd gydag aelodau'r Bwrdd a'r Clerc	Andrew Evans	Ar waith
Sefyllfa Gyllidol y Llyfrgell	Sefydlu grŵp tasg a gorffen i drafod materion cyllidol yng nghyd-destun dyfodol cynaliadwy i'r Llyfrgell	Llywydd / Prif Weithredwr	Awst/ Medi 2023
	Datblygu cylch gorchwyl i'r grŵp	Prif Weithredwr	Awst/Medi 2023
	Sefydlu grŵp tasg a gorffen i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau CIPFA yn ymwneud â'r Adran Gyllid	Trysorydd / Prif Weithredwr	Awst/Medi 2023
	Datblygu cylch gorchwyl i'r grŵp	Prif Weithredwr	Awst/Medi 2023
	Tabl o ymrwymiadau'r cronfeydd preifat, ynghyd â gwybodaeth gefndirol i'r ceisiadau i osod cyd-destun	TG ac Emyr Evans	✓
	Borden flaen o brif ystadegau	Owain Roberts	I'w ystyried
Adroddiad Prif Weithredwr	Gofyn i glerc y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhygnwladol os oes angen i'r Ymddiriedolwyr fod yn bresennol pan fyddant yn cyfarfod yn y Llyfrgell ym mis Hydref	Prif Weithredwr	Prif Weithredwr a'r Llywydd wedi cael gwahoddiad i ymddangos o flaen y pwyllgor
Cyflwyniad Fourth Street	Drafftio cynllun gweithredu yn deillio o adroddiad Fourth Street	Rhian Gibson	✓

	Rhannu fersiwn diweddaraf yr adroddiad gyda'r aelodau	Clerc y Bwrdd	✓
3.1Strategaeth Codi Arian	Drafftio polisi i danategu'r strategaeth Cynnwys mesurau llwyddiant a gwaelodlin yn y strategaeth a'i ail chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo	Rich Roberts Rich Roberts	✓ ✓
3.2Cais Cronfeydd Preifat	Drafftio papur ar ymgysylltu â chynulleidfaoedd i'w gyflwyno i'r Bwrdd	Rich Roberts	Cyfarfod y Bwrdd 29.09.23
3.5Cynllun Pensiwn	Diweddaru'r papur ymgynghorol	Trysorydd a Chadeirydd Bwrdd Cynllun Pensiwn	Ar waith
4.2.1Cofrestr Risg Gorfforaethol	Diwygio'r gofrestr yn dilyn sylwadau'r aelodau Cysylltu gyda'r archwilwyr mewnol ynglŷn â thempled Cofrestr Gwrth-dwyll	Prif Weithredwr Clerc y Bwrdd	✓ ✓
6.2Cymorth Aelodau	Dosbarthu holiadur i'r aelodau nodi eu diddordebau o ran gwaith y Llyfrgell	Llywydd	Ar waith